# Stori Wirfoddoli Emily

*GWLAD BELG A MECSICO 2023*



Mae WCIA wedi bod yn anfon pobl ifanc ar raglenni cyfnewid rhyngwladol ers y 1970au. Yn ein barn ni, does dim ffordd well i berson ifanc ddatblygu sgiliau a chymwyseddau allweddol, yn ogystal ag ennill sgiliau dinasyddiaeth amhrisiadwy, na cymryd rhan mewn rhaglen gyfnewid, mynd allan o'u parth cysur, a gwneud rhywbeth sy'n newid bywyd go iawn.

Rydym yn credu y dylai pawb yng Nghymru gael y cyfle i wirfoddoli dramor, datblygu fel dinesydd byd-eang, a chyfrannu at geisio creu byd mwy teg a mwy heddychlon mewn amgylchedd diogel.

TDyma Emily, Myfyriwr Seicoleg o Brifysgol Abertawe. Eleni, penderfynodd wneud rhywbeth hollol wahanol ac allan o'i pharth cysur. Gyda chefnogaeth yr Academi Heddwch a WCIA a chyllid gan y rhaglen Taith, sydd yn cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru, aeth Emily ar leoliad wythnos o hyd ym Mrwsel ym mis Mai, a chymryd rhan yng Nghynhadledd Heddwch flynyddol Sefydliad Heddwch Fflandrys. Dysgodd Emily a'r gwirfoddolwyr eraill am hanes creu heddwch yng Ngwlad Belg a'r UE, yn ogystal â chreu cynnwys rhyngweithiol ar gyfer y Sefydliad Heddwch.

A dim yn fodlon ar un prosiect anhygoel, penderfynodd Emily weld lle gallai gwirfoddoli fynd â hi!

Aeth ar ail leoliad dros yr haf ym Mecsico, lle bu'n cynorthwyo gyda phrosiect Cadwraeth Crwbanod Môr ein partner, Viva Mexico, prosiect a welodd hi'n cynorthwyo i warchod nythod crwbanod môr, glanhau'r traeth a rhyddhau crwbanod môr yn ôl i'r gwyllt, yn ogystal â phlannu coed i wella gwytnwch yr ardal i newid hinsawdd.

WCIA
WELSH CENTRE FOR INTERNATIONAL AFFAIRS
CANOLFAN MATERION RHYNGWLADOL CYMRU

*"Roedd Emily yn unigolyn cymdeithasgar, gyda diddordeb go iawn mewn pobl a'u straeon. O'r eiliad y dechreuon ni ar ein hantur i Wlad Belg, gofynnodd gwestiynau treiddgar a gwrando'n empathig ar eu profiadau. Yn ystod ein hamser yn gweithio gyda'r sefydliad heddwch, roedd hi'n awyddus i ddeall manylion gwrthdaro a thrafodaethau heddychlon, ac roedd ei natur feddylgar yn caniatáu iddi feithrin perthynas â gwahanol grwpiau o bobl yn y drafodaeth."*

*Amber Demetrius – Pennaeth Dysgu Byd-eang WCIA ac Arweinydd Grŵp yng Ngwlad Belg*




## Beth Wnaeth Emily Ei Fwynhau Fwyaf

[ym Mrwsel] Llawer o drafodaethau am beth roeddem wedi ei glywed a'i ddysgu ymhlith ein gilydd. Rwy'n credu bod tŷ'r Crynwyr yn sicr wedi cael effaith ar y ffordd 'dwi'n meddwl, gan fod ganddyn nhw ffordd heddychlon iawn o adeiladu heddwch.

[ym Mecsico] Fe wnes i fwynhau'r patrolau nos yn fawr, lle cawsom weld y crwbanod hŷn yn dod ar y traeth i ddodwy eu nythod. Uchafbwynt i mi oedd pan lwyddais i ddilyn trac crwban ar fy mhen fy hun, a dod o hyd i'r nyth, roedd hynny'n sicr yn foment falch. Fe wnes i fwynhau rhyddhau'r crwbanod bach ar fachlud yr haul hefyd!

Fe wnes i ennyn gwerthfawrogiad newydd am lanhau traethau, roedd hynny'n rhywbeth oedd yn rhoi boddhad mawr i mi. Yn enwedig pan fydden ni'n dod yn ôl i'r un traeth a byddai'n lot fwy glân, roedd o'n brofiad braf cael sgwrsio gyda'r gwirfoddolwyr eraill hefyd.

## Taith a Chyfnewid Rhyngwladol

2022/23 oedd y flwyddyn gyntaf y gallai pobl ifanc yng Nghymru fanteisio ar gyfleoedd cyfnewid rhyngwladol drwy Taith.

Mae Taith yn gynllun gan Lywodraeth Cymru, gyda'r nod o ddod â Chymru i'r Byd a'r Byd i Gymru. Gall pob person ifanc sy'n byw yng Nghymru, rhwng 16 a 25 oed, waeth beth fo'u cefndir neu ble maent yn byw, gymryd rhan mewn rhaglen cyfnewid rhyngwladol drwy Taith.



## Diwrnod Arferol yn Gwirfoddoli ym Mecsico

Roedd y lleoliad hwn ar gyfer Cadwraeth Crwbanod Môr. Roedd y tasgau yn newid o ddydd i ddydd; byddem fel arfer yn cael gwybod yn y bore, gan y byddai'n dibynnu i raddau helaeth ar faint o nythod a ganfuwyd y noson gynt. Byddai'r diwrnod fel arfer yn cynnwys plannu nythod ac yna, gweithgaredd cyffredinol ar gyfer y diwrnod, a fyddai'n aml yn golygu glanhau traethau a rhyddhau crwbanod bach.

Mae hyn wir wedi tynnu fy sylw at bwysigrwydd cadwraeth anifeiliaid ond hefyd, at gadwraeth amgylcheddol, a sut mae'r ddau wedi'u hintegreiddio mor dynn. Mae wedi rhoi parch a gwerthfawrogiad newydd imi am yr amgylchedd/planed a'r creaduriaid sy'n ei alw'n gartref. Mae'r gwirfoddoli hwn wedi fy ngwneud yn ymwybodol go iawn o'r gwastraff rydw i'n bersonol yn ei greu, a 'dwi wedi dechrau gwneud newidiadau yn fy mywyd fy hun sy'n fwy cynaliadwy.

## Diwrnod arferol yn gwirfoddoli yng Ngwlad Belg

Buom yn ymweld â gwahanol sefydliadau fel tŷ Cymru, tŷ'r Crynwyr, senedd yr UE, senedd Fflandrys a'r gynhadledd heddwch, a dysgu ganddyn nhw am eu gwaith.

Roedd yn gyfle gwych i ddatblygu fy nealltwriaeth drawsddiwylliannol, a dysgu mwy am heddwch a gwrthdaro gan arbenigwyr. Fel myfyriwr seicoleg, mae hyn yn ddiddorol dros ben i mi, nid yn unig i ddysgu am ganfyddiadau'r ymchwil ond hefyd, am sut y cafodd ei gynnal.



## Sut y Gwnaeth y Lleoliad Gael Effaith ar Emily

Rwy'n credu mai'r peth pwysicaf a ddysgais yw peidio â gwneud rhagdybiaethau am bobl, sut i gynnal trafodaeth barchus pan nad yw pawb yn cytuno â'i gilydd, a bod heddwch yn dechrau ynddo chi eich hun.

Ar wahân i hynny, dysgais am ddiwylliannau eraill - nid yn unig Mecsico ond dysgais hefyd, drwy'r gwirfoddolwyr eraill, am eu diwylliant nhw ac am y gwledydd maen nhw'n dod ohonynt.




## Pam Dewis Gwirfoddoli?

Rwyf yn gwerthfawrogi dysgu yn fawr, ac mae gwirfoddoli yn rhyngwladol yn eich trochi chi go iawn mewn amgylchedd dysgu newydd; drwy fabwysiadu'r wybodaeth a'r sgiliau technegol ar gyfer y rhaglen wirfoddoli rydych chi arni a hefyd, mewn person, drwy orfod addasu i ddiwylliant a ffordd o fyw hollol newydd.

## Beth nesaf i Emily

Rwy'n credu bod hyn wedi cael effaith fawr ar fy nghynlluniau ar gyfer y dyfodol. Er nad yw'r nodau'n glir, rwy'n teimlo bod y profiad hwn wedi tynnu sylw at fy ngwerthoedd o ran yr amgylchedd, a hoffwn fod â meddwl agored am y cyfleoedd sydd ar gael i barhau i gael effaith gadarnhaol yn hynny o beth.

Mae WCIA yn ddiolchgar iawn i'r tîm yn Academi Heddwch, Sefydliad Heddwch Fflandrys a Viva Mecsico am drefnu profiadau mor drawsnewidiol i'r bobl ifanc, gan gynnwys Emily. I Emily o leiaf, ysbrydolodd bersbectif newydd ar fywyd, ac awydd i brofi mwy o'r byd trwy waith gwirfoddoli rhyngwladol. Mae'n dyst i raglenni fel Taith, a bod caniatáu i bobl ifanc o Gymru brofi'r byd a chyfrannu at brosiect yn gallu arwain at greu cenhedlaeth newydd o ddinasyddion gwybodus moesegol o Gymru a'r Byd.

Os ydych chi wedi cael eich ysbrydoli gan stori Emily, neu'n adnabod person ifanc a allai elwa o brofiad gwirfoddoli rhyngwladol, edrychwch ar ein cyfleoedd gwirfoddoli eraill sydd ar gael yma, neu anfonwch e-bost atom - volunteer@wcia.org.uk